**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Arfarnu'r Prif Weithredwr

**Ystafell Gynadleddau'r Cabinet - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 10 Mai 2018 am 9.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| E W Fitzgerald | C A Holley | L R Jones |
| A S Lewis | C E Lloyd | I E Mann |
| J A Raynor | R C Stewart | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Deallusrwydd Busne a Swyddog Monitro |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Deb Yeates | Arweinydd Tîm - Gweithrediadau AD |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M C Child

---

**7 Ethol Cadeirydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2017/2018.**

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd R C Stewart yn Gadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2017-2018.

**Bu'r cynghorydd RC Stewart (Cadeirydd) yn llywyddu**

**8 Ethol Is-gadeirydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2017/2018.**

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd C E Lloyd yn Is-gadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2017/2018.

**9 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

**10 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor Arfarnu a Chydnabyddiaeth Ariannol y Prif Weithredwr a gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2017 fel cofnod cywir.

## 11 Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem fusnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail ei fod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraffau gwahardd 12 ac 13 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas â'r eitem fusnes fel a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** gwahardd y cyhoedd.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 12 Adolygiad Blynyddol o Berfformiad y Prif Weithredwr.

Darparodd y Prif Weithredwr y diweddaraf am yr amcanion perfformiad yr oedd wedi'u nodi yn ei rôl dros dro ers 1 Mehefin 2016 ac yna yn ei rôl barhaol o fis Gorffennaf 2017. Darparodd ac amlinellodd adroddiad cynnydd manwl yn ymwneud â'r themâu a'r perfformiadau amrywiol tuag at yr amcanion a amlygwyd yn yr atodiadau i'r adroddiad.

Nododd ac amlinellodd hefyd ei amcanion ar gyfer 2018.

Gofynnwyd cwestiynau ynghylch yr amcanion, a'r meysydd pwnc amrywiol a pherfformiad, ac ymatebodd y Prif Weithredwr yn briodol. O ganlyniad i'r trafodaethau a gynhaliwyd, cryfhawyd yr amcanion yn unol â hyn. Byddai'r Prif Weithredwr yn ail-gylchredeg yr amcanion diwygiedig i'r pwyllgor.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Roedd yr aelodau'n fodlon ar berfformiad y Prif Weithredwr;

2) Cytunodd y pwyllgor ar yr amcanion diwygiedig ar gyfer 2018/19.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.20 am

**Cadeirydd**